# Darpariaeth medrau sylfaenol oedolion yn y sector dysgu oedolion yn y gymuned

## 1. Arolwg i athrawon / tiwtoriaid

Bydd yr arolwg hwn yn rhan o'r sail dystiolaeth ar gyfer adolygiad thematig Estyn o'r ddarpariaeth medrau sylfaenol oedolion (llythrennedd, rhifedd, medrau digidol) yn y sector Dysgu Oedolion yn y Gymuned.

Bydd yr arolwg yn gofyn ychydig o gwestiynau byr am eich rôl. Yna, mae chwe adran, bob un ohonynt yn cynnwys dau gwestiwn ymateb agored, yn archwilio elfennau gwahanol o'n hadolygiad thematig:

- asesiad cychwynnol
- cynllunio i oresgyn rhwystrau dysgwyr rhag dysgu
- gwreiddio medrau digidol mewn darpariaeth llythrennedd neu rifedd
- cynnydd dysgwyr
- dysgu proffesiynol
- llwyddiannau a heriau.

Mae croeso i chi ymateb gyda chymaint neu gyn lleied o fanylion ag y dymunwch. Mae'r arolwg yn ddienw ac ni fydd yn enwi unrhyw unigolyn na darparwr.

Cewch ein datganiad preifatrwydd yma: Datganiad Preifatrwydd Estyn

## 2. Eich rôl a'r darparwr

### 1. Pa un o'r canlynol sy'n disgrifio eich rôl orau? (ticiwch un)

- ☐ Athro / tiwtor llythrennedd, rhifedd neu fedrau digidol
- ☐ Athro / tiwtor llythrennedd, rhifedd neu fedrau digidol yn bennaf, gyda rhywfaint o gyfrifoldeb rheoli neu gydlynu
- ☐ Rheolwr neu gydlynydd yn bennaf, gyda rhywfaint o gyfrifoldeb addysgu
- ☐ Cymorth dysgu / cynorthwyydd addysgu
- ☐ Arall (rhowch fanylion):

### 2. Pa bynciau medrau sylfaenol oedolion ydych chi'n eu haddysgu? (ticiwch bob un sy'n berthnasol)

- ☐ Llythrennedd
- ☐ Rhifedd
- ☐ Medrau digidol

### 3. Nodwch ar gyfer pa fath o ddarparwr rydych chi'n addysgu (ticiwch bob un sy'n berthnasol)

- ☐ Awdurdod lleol sy'n ddarparwr dysgu oedolion yn y gymuned
- ☐ Coleg addysg bellach
- ☐ Darparwr hyfforddiant preifat
- ☐ Darparwr sector gwirfoddol
- ☐ Arall

### 4. Tua faint o oriau'r wythnos ydych chi'n addysgu (gall hyn gynnwys addysgu heblaw llythrennedd, rhifedd neu fedrau digidol)?

- ☐ Llai na 5
- ☐ Rhwng 5 a 10
- ☐ Rhwng 10 a 15
- ☐ Mwy na 15

## 3. Asesu cychwynnol

Mae gennym ddiddordeb mewn gwybod sut rydych chi'n asesu mannau cychwyn dysgwyr mewn llythrennedd a rhifedd pan fyddant yn cyrraedd eich darpariaeth ac effeithiolrwydd unrhyw offer rydych chi'n eu defnyddio ar gyfer y dasg hon.

**5. Sut ydych chi'n asesu mannau cychwyn dysgwyr pan fyddant yn cyrraedd eich darpariaeth chi (e.e. WEST, neu offeryn asesu cychwynnol arall)? Dewiswch bob opsiwn sy'n berthnasol.**

- ☐ Asesiad cychwynnol WEST
- ☐ Asesiad cychwynnol BKSB
- ☐ Asesiad cychwynnol ar bapur a etifeddwyd oddi wrth yr Asiantaeth Sgiliau Sylfaenol
- ☐ Eich gweithgarwch asesu cychwynnol strwythuredig eich hun
- ☐ Hunanasesiad gan ddysgwr
- ☐ Arall (rhowch fanylion):

**6. Pa mor effeithiol ydyw?**

# 4. Cynllunio i oresgyn rhwystrau dysgwyr rhag dysgu

**7. Yn eich profiad chi, beth yw'r rhwystrau mwyaf mae dysgwyr yn eu hwynebu wrth iddynt ddysgu llythrennedd, rhifedd neu fedrau digidol?**

**8. Sut ydych chi'n cynllunio eich addysgu i ddarparu ar gyfer gwahanol anghenion dysgwyr?**

## 5. Rhwystrau

Mae'r graddau y mae medrau digidol dysgwyr yn rhwystr iddynt rhag dysgu llythrennedd neu rifedd o ddiddordeb i ni.

**9. A ydych chi o'r farn bod medrau digidol dysgwyr yn rhwystr iddynt rhag dysgu llythrennedd neu rifedd? Rhowch eich barn i ni am hyn.**

**10. A ydych chi o'r farn bod medrau digidol yn gallu cael eu haddysgu ochr yn ochr â llythrennedd neu rifedd, neu a yw'n well addysgu medrau digidol ar eu pen eu hunain?**

## 6. Cynnydd dysgwyr

**11. Sut ydych chi'n mesur cynnydd dysgwyr pan fyddant ar raglen gyda chi?**

**12. Sut ydych chi'n defnyddio'r wybodaeth rydych chi'n ei chael o hyn?**

# 7. Dysgu proffesiynol

**13. A ydych chi wedi cael dysgu proffesiynol diweddar (o fewn y 12 mis diwethaf) ar addysgu llythrennedd, rhifedd neu fedrau digidol?**

☐ Ydw

☐ Nac ydw

Os ydych, dywedwch ragor wrthym – beth oedd hwn? A oedd yn ddefnyddiol? A yw wedi dylanwadu ar eich ymarfer?

## 8. Llwyddiannau a heriau

**14. Yn eich tyb chi, beth yw'r heriau mwyaf i chi fel athro, ac i'r sector, wrth ddarparu llythrennedd, rhifedd neu fedrau digidol?**

**15. A'r llwyddiannau?**